



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 66  
MAI 2014

### WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 11-17 MAI

Mae rhyfel yn rhwygo bywydau. Gall cariad helpu i'w dwyn ynghyd unwaith eto. *'Mae'r Arglwydd fel craig i mi, yn gastell ac yn achubwr... yn graig i mi lechu dani.'* 2 Samuel 22:2-3

I nifer gynyddol o bobl ar draws y byd, mae erchylltra rhyfel yn rhan o fywyd pob dydd. Ar hyn o bryd, yn sgîl y trais dinistriol yn Syria ac yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, mae'r nifer o bobl a orfodir o'u cartrefi gan ryfel yn cynyddu. Mae'r ffigwr wedi cyrraedd 42 miliwn o bobl – ystadegyn dychrynlyd a staen ar gydwybod y ddynoliaeth. Ni allwn droi cefn. Rhaid gweithredu nawr. Y newyddion da yw y gall eich eglwys chi wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Llynedd llwyddodd 20,000 o eglwysi ar draws y wlad godi dros £12 miliwn tuag at Wythnos Cymorth Cristnogol.

Yn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, (11-17 Mai 2014), rydym am fynd gam ymhellach. Rydym am i bob eglwys yn y DU ac Iwerddon i gymryd rhan – p'un ai drwy roi, gweithredu neu weddïo. Gyda'n gilydd fe allwn anfon y neges hon at bobl sy'n byw mewn ofn: nid ydych ar eich pennau eich hunain. Rydym ni gyda chi, yn eich helpu i ailadeiladu eich bywydau ac yn gweithio dros heddwch.

Dychmygwch beth allai'r amlygiad yma o gariad ei olygu i bobl sy'n chwilio am y nerth i ddelio gyda dinistr rhyfel, a sut y gallai helpu i gael gwared â'u hofn. Wrth ddangos cariad Duw i'r rhai sy'n byw mewn tloidi, dangosir cymaint o ddaioni a wneir gan yr eglwys yn y byd yn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Gyda'n gilydd gallwn gyrraedd y 42 miliwn o bobl sydd wedi eu dal mewn gwrthdaro, a'u helpu i fyw bywyd yn rhydd o ofn.

### Gallech chi ddarparu rhodd yn llawn gobaith?

**£15** yn talu am flancedi i blant sy'n ffoaduriaid i'w hamddiffyn rhag oerni'r nos.

**£40** yn darparu digon o fwyd maethlon a da am fis i ddau blentyn sy'n ffoaduriaid.

**£150** yn ein helpu i sicrhau cymorth emosiynol arbenigol i blentyn a ddioddefodd trawma o ganlyniad i'r hyn mae wedi ei weld neu brofi mewn rhyfel.

**Byddwch yn gyfrwng i heddwch Duw.**

**Rhowch, gweithredwch a gweddiwch yn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.**

[caweek.org](http://caweek.org)



## CALENDR MIS Mai 2014

Cyhoeddwr y Mis: Mairwen Jones	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
4 Mai 10.30yb	Oedfa Cymorth Cristnogol ym Methel (Byddwn yn cyd-addoli gydag aelodau Bethel ac aelodau Eglwys Gymraeg San Paul). Cynhelir yr Ysgol Sul yn Horeb o dan arweiniad Ceri am 10.30yb.	
11 Mai 10.00yb a 5.30yh	Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth Arweinydd yr Hwyr: Mrs Margaret Daniel	
18 Mai 10.30yb  2.30yp	Cynhelir yr Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe.  Oedfa Bregeth: Y Parchg Peter Thomas	Gofal y te: I'w drefnu
25 Mai 10.30yb	Yn ystod yr Oedfa cawn anerchiad gan Cerys Humphreys am ei thaith i Awstralia a noddwyd gan Gymrodoriaeth Winston Churchill.	
1 Mehefin 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: I'w drefnu

### I'ch Dyddiadur

7 Mai: Rihysal y Gymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth am 7.00yh.  
 10 Mai: Ysgol Undydd Cymdeithas Emyrau yn Festri Bethel: 10.30yb-4.30yp  
 11-17 Mai: Wythnos Cymorth Cristnogol  
 12 Mai: Cinio Bara Caws yn Seion, Stryd y Popty o dan ofal Eglwys St Mihangel/Santes Fair. Bydd y cinio'n dechrau am 12.00 gyda gwasanaeth byr i ddynodi cychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol.  
 14 Mai: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.  
 14 Mai: Cymdeithas Bethel am 2.30yp. Anerchiad gan Jane Powell am ei gwaith ym myd amaethyddiaeth organig.  
 19 Mai: Cyfarfod Agor y Llyfr yn Festri Horeb am 11.00yb.  
 19-24 Mai: Siop Cymorth Cristnogol yn Festri Bethel  
 20-21 Mai: Cyfarfodydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Methel, Drefach.  
 28 Mai: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp: Horeb yn gyfrifol am weini.  
 27 Mai: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp. Byddwn yn darllen Datguddiad 15.  
 29-30 Mai: Clwb Hanner Tymor yn Festri Horeb.  
 21 Mehefin: Taith Owain Glyndŵr Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni'r Athro Gruffydd Aled Williams. Enwau i Ceris.  
 22 Mehefin: Gwibdaith Bethel a Horeb i Ardal Ann Griffiths.  
 3 Gorffennaf: Oedfa i Ddathlu Pen-blwydd Mudiad y Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 70 oed ym Methel am 2yp.

### LLOFFION

Dymuniadau gorau i Mona sydd yn disgwyl triniaeth.  
 Dymuniadau gorau hefyd i Connie sydd wedi treulio cyfnod ym Mryntirion, Tregaron ac yng Nghartref Bodlondeb.

### Llongyfarchiadau i :

Elin Huxtable ar ei phenodi i swydd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.  
 Sara ac Iltud ar eu priodas ar 11 Ebrill.

### Prosiect y Tair Gofalaeth

Os oes gan rywun lythyrau, dogfennau, lluniau ayyb yn eu heiddo, neu hanes perthynas iddynt â chysylltiad â'r ardal hon o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, cysylltwch â Ceris neu Judith.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae Rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris – pris £1.35

Enwau ar y rhestrau: Byddai'r swyddogion yn ddiolchgar pe gallech wirfoddoli trwy dorri eich enwau ar y rhestrau yn y cyntedd.

Gwibdaith i Ardal Ann Griffiths: Enwau i Ceris os gwelwch yn dda. Mae te wedi'i drefnu am £5 a gofynnir yn garedig am gyfraniad o £5 fel isafswm tuag at gost y bws.

Siop Cymorth Cristnogol: Festri Bethel: 19-24 Mai. Bydd y siop ar agor bob dydd o 9.30 i 5.00 ond am y dydd Llun pan agorir am 1.30yp. Bydd y festri ar agor i dderbyn nwyddau o 8.30yb bob bore.

